# Cofnodion y Bwrdd Wedi eu Cadarnhau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC** | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Mai 2017 | Lleoliad: | Canolfan Ymwelwyr Garwnant, Merthyr Tudful |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Is-gadeirydd)<br>Syr Paul Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl)<br>Nigel Reader (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg)<br>Andy Middleton (Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Karen Balmer<br>Howard Davies<br>Zoë Henderson<br>Ruth Hall<br>Chris Blake<br>Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr) | | |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (cyrhaeddodd ar gyfer eitem 5 ymlaen)<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl | | |
| **Mynychwyr Ychwanegol:** | Rhian Jardine, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy (Eitem 2)<br>Peter Gough, Prif Gynghorydd Pysgodfeydd (Eitem 3)<br>Ruth Tipping, Arweinydd Tîm Cenedlaethau'r Dyfodol, Newid yn yr Hinsawdd a'r Dirwedd (Eitem 4)<br>Steve Burton, Pennaeth Gwasanaethau Pobl (Eitem 6) | | |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geralene Mills | | |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Busnes Safonol y Bwrdd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a diolchodd i Neil Stoddard a'r tîm gweithrediadau lleol am y daith fewnweledol o amgylch safle coedwigaeth Garwnant. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd lenwi'r arolwg ôl-gyfarfod a fyddai'n cael ei ddosbarthu gan yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn gwneud cynnydd ar ddatblygiadau a oedd yn ymwneud â chyflawniad Cyfarfod y Bwrdd.

## Ymddiheuriadau

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Syr Paul Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl) a Niall Reynolds, Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid.

## Datganiadau o Ddiddordeb

3. Gwnaeth Chris Blake ddatgan ei ddiddordeb ym Mhrosiect Ynni Alwen. Nododd Elizabeth Haywood ddiddordeb posibl yn y contract.

***Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer Elizabeth Haywood.***

## 1. Adroddiad Perfformiad 2016/17

4. Gwnaeth y Prif Weithredwr ddiweddaru'r Bwrdd ar y perfformiad cyffredinol trwy gyflwyniad, gan nodi'r cyraeddiadau canlynol:

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol – wedi'i gyhoeddi
- Wedi cyhoeddi Datganiad ac Amcanion Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi – dim ond un methiant yn erbyn safonau uwch
- Trin prosiectau mawr – mae ymgysylltu â rhanddeiliaid cymunedol yn gynnar o ran datblygu'r Cynlluniau Llifogydd yn cyflwyno buddion, gyda gwell cysylltiad â rhanddeiliaid a llai o bryderon/cwynion yn cael eu codi yn ystod y gwaith o gyflenwi'r cynllun
- Cyfryngau/cyfathrebiadau – datblygiadau mewnol ac allanol
- Rhaglenni datblygu staff – gan gynnwys cyflenwi rhaglenni rheoli'r Tîm Gweithredol/Tîm Arwain/Tîm Rheoli, sy'n cael eu croesawu ledled y sefydliad. Mae 25 aelod o staff yn cwblhau cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, sy'n cael eu cyflenwi yn rhannol trwy ddau goleg addysg bellach yng Nghymru.

Heriau:

- Dirywiad o ran cydnerthedd ecosystemau/bioamrywiaeth

- Rheolaeth ariannol – mae'r Cymorth Grant llai o faint ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i reoli'n dda gan bob un o dimau'r sefydliad.
- Cyfrifon 2015-16: roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn ddiamod ar natur wir a theg y Cyfrifon, tra'r oedd ei farn ddiamod ar sail rheoleidd-dra yn gyfyngedig i gyhoeddi cytundebau pren hir dymor yn unig.
- Gwerthuso swyddi – yn parhau, gyda diweddariad i'r Bwrdd yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

5. Nododd y Bwrdd y gwaith datblygu a oedd wedi'i wneud gan y grŵp Pobl a Thimau a'r gwaith yr oeddent yn ei wneud i ddatblygu rhaglen waith yr Arolwg Pobl. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar y dull arfaethedig o weithredu'r Arolwg Staff yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Gan ystyried y gwaith sydd ar y gweill, teimlai'r Bwrdd y dylai'r dangosydd perfformiad perthnasol gael ei gadw ar goch, a gofynnodd i hyn gael ei adolygu.

***Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i nodi rhagolwg ar gyfer mis Gorffennaf. Ashleigh i ddod â phapur Arolwg Staff i'r Bwrdd, ar ôl ystyriaeth lawn gan y Tîm Gweithredol.***

## Gwybodaeth Dda

6. Rhoddodd Ceri Davies ddiweddariad o'r thema, gan nodi:

a. Nifer o gyraeddiadau yn ystod y flwyddyn, gyda'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cael ei gyhoeddi, cyhoeddiad Datganiad Llesiant CNC, datblygiad Datganiadau Ardal, a chyflawniad parhaus setiau data agored ar borth Lle Llywodraeth Cymru.

b. Y Llyfr Domesday ar Blanhigion: Cyhoeddiad cofnod cyflawn o blanhigion a rhedyn blodeuol prin Cymru wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi, mewn partneriaeth â Chymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon (BSBI) a chofnodwyr gwirfoddol.

c. Bryniau Iach – prosiect cydweithredol a ddatblygodd o Dreial Ardal Rhondda, a enillodd y Wobr Gwasanaeth Cyhoeddus Cynaliadwy yng Ngwobrau Cynnal Cymru ar gyfer 2016.

d. Archif Data Amgylcheddol: mae'r dangosydd perfformiad ar oren ar hyn o bryd, ac mae llawer o waith yn parhau i archifo mwy na 60 o flynyddoedd o wybodaeth a data. Dylai'r elfennau sydd ar ôl o'r môr a chynefinoedd gael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd.

7. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar y thema a gofynnodd am sicrwydd ar y ddarpariaeth TGCh i'w chyflenwi. Cadarnhaodd Kevin Ingram fod CNC wedi gwneud y defnydd gorau

posibl o ddatrysiadau cwmwl ar ddechrau ei oes fel bod y dechnoleg sy'n cael ei datblygu yn wydn ac yn addas i'r diben.

### Amgylchedd Da

8. Rhoddodd Tim Jones ddiweddariad o’r thema, gan nodi:

a. Strategaeth Amgylcheddol Cymru: Nododd y Bwrdd nad oedd targed CNC ei hun wedi'i gyrraedd. Cytunwyd y dylai'r cyfle sydd i ddod i adolygu'r dangosyddion perfformiad fynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

9. Nododd y Bwrdd bryder o ran cyflawni Bioamrywiaeth a'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer gwaith Carbon Bositif, a gofynnodd am adolygiad o'r ddau ddangosydd.

10. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r amcanion amgylcheddol barhau i fod yn brif flaenoriaeth i CNC.

11. Cadarnhaodd y Tîm Gweithredol fod dyrannu adnoddau i'r prif flaenoriaethau yn iawn, ond cytunwyd ei bod hi'n bryd adolygu'r blaenoriaethau, y dyraniad o adnoddau a'r targedau perfformiad fel rhan o'r broses Cynllunio Corfforaethol.

### Da i Bobl

12. Rhoddodd Gareth O’Shea ddiweddariad o’r thema, gan nodi:

a. Rheoli Asedau Llifogydd – Gofynnodd y Bwrdd i ddiweddariad gael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Lifogydd o ran cynnal a chadw asedau llifogydd risg uchel, er mwyn llwyr ddeall pwysigrwydd y sgôr oren barhaus.  Gofynnwyd i'r Grŵp Cynghori ar Lifogydd ddarparu diweddariad i Gyfarfod y Bwrdd.

***Cam Gweithredu: Ceri Davies i gomisiynu nodyn briffio diweddaru ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Lifogydd ar reoli asedau llifogydd.  Cadeirydd y Grŵp Cynghori, Madeleine Havard, i ddarparu diweddariad ar lafar i'r Bwrdd.***

b. Nodwyd hefyd y datblygiadau canlynol:

- Prosiect Coetir Ysbryd Llynfi, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ac ymgysylltiad â phartneriaid, i drawsnewid hen safle diwydiannol yn goetir amlddefnydd yng Nghwm Llynfi Uchaf.
- Ansawdd yr Aer, Port Talbot – nodwyd mai hwn oedd y perfformiad gorau a gofnodwyd mewn wyth blynedd, ac, o ganlyniad, bu llai o gwynion gan y gymuned gyfagos.
- 1,000fed cynllun llifogydd wedi'i ddatblygu ar y cyd â chymunedau.

## Da i Fusnes

13. Rhoddodd Tim Jones ddiweddariad o’r thema,

a. Nododd y Bwrdd fod pob dangosydd perfformiad ar gyfer y thema yn wyrdd.

b. Gwnaeth y Bwrdd hefyd nodi'r canlynol:

- Cynnydd o 3.5% mewn Gwerthiannau Pren, gan gynhyrchu incwm o £1.2 miliwn
- Wedi ennill Gwobr Ynni Gwyrdd, *Y Defnydd Gorau o Ynni Adnewyddadwy yn y Sector Cyhoeddus*
- Garwnant – cais cynllunio llwyddiannus gan Forest Holidays ar gyfer y datblygiad yng Ngarwnant
- Rali Cymru GB – cyswllt partner llwyddiannus, gyda threfniadau eraill yn cael eu cytuno i dalu am gostau'r Rali.

14. Nododd y Bwrdd y bydd y Cynllun Menter yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn ystod Cyfarfod Busnes y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

## Trefnu Da

15. Darparodd Kevin Ingram ddiweddariad o'r thema, gan nodi:

a. Cynllun Corfforaethol – mae hwn yn cael ei ddatblygu gyda chymorth Bwrdd CNC, ac mae'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi wedi'i ymestyn yn sgil yr oedi ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Cwestiynwyd y sgôr 'gwyrdd' ar gyfer y mesur hwn, gan ystyried yr oedi, a chytunwyd i adolygu'r sgôr.

b. Iechyd a Diogelwch – cwestiynodd y Bwrdd lefel yr adroddiadau o ddigwyddiadau a gafodd eu hosgoi o drwch blewyn, a gofynnodd am sicrwydd bod hyn yn adlewyrchu nifer y digwyddiadau yn gywir. Nododd Gareth O'Shea ein bod yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod pob digwyddiad a gafodd ei osgoi o drwch blewyn yn cael ei adrodd fel ein bod yn gallu dysgu oddi wrthynt, ond roeddem yn fodlon â lefel yr adrodd yn gyffredinol.

c. Adroddiad Asesu Budd-daliadau – nododd y Bwrdd fod y cam gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn dal ar waith wedi'i gwblhau bellach ac mae'r Adroddiad Asesu Budd-daliadau terfynol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dangosodd yr adroddiad sefyllfa net bositif o'i chymharu â'r achos busnes gwreiddiol ar gyfer creu CNC; byddai'r adroddiad yn cael ei adolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf.

***Camau gweithredu:***

***Kevin Ingram i ddosbarthu'r adroddiad i Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth ar ôl cael sylwadau Llywodraeth Cymru.***

***Tîm Cynllunio Corfforaethol i adolygu statws perfformiad y dangosyddion canlynol: cynhyrchu'r cynllun corfforaethol, bioamrywiaeth, yr arolwg pobl, a'r prosiect carbon bositif. Diwygio cyn cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad terfynol ar gyfer 2016-17.***

***Tîm Cynllunio Corfforaethol i adolygu a datblygu fformat diwygiedig ar gyfer adrodd ar berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 17/18, gan ymgysylltu ag Is-grŵp y Bwrdd fel y bo angen.***

***Tîm Gweithredol i barhau i adolygu cyflwyniad gwybodaeth am berfformiad i'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar wybodaeth flaenoriaethol.***

## 2. Dull Gweithredu Strategol yn y Dyfodol ar gyfer Cyllid Rheoli Adnoddau Naturiol (CNC B 25.17)

16. Cyflwynwyd y papur gan Rhian Jardine. Roedd y tîm wedi datblygu'r dull cyllido arfaethedig mewn cysylltiad â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eglurder a chyfnod pontio llyfn wrth i ni symud tuag at ddiwedd y rownd a'r broses gyfredol, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2018. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r argymhellion yn y papur.

17. Nodwyd y pwyntiau canlynol er eglurhad:

- Paragraff 9 – bydd union ddyfarniad a rhaniad y cyllid ar draws y penaethiaid amrywiol yn cael eu pennu yn ddiweddarach yn y broses.
- Paragraff 13 – awgrymodd y papur y dylai rhan o'r cyllid fynd i chwe ardal CNC, a'r ardal forol, er mwyn cefnogi datblygiad cyfleoedd lleol fel rhan o weithio mewn lleoliad.
- Gwnaeth y papur hefyd gynnig ymchwilio i gyfleoedd arian cyfatebol er mwyn cael cymaint â phosibl o adnoddau cyffredinol.
- Paragraff 14 – mae hwn yn egluro'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y rhaglen.

18. Darparodd y Bwrdd yr adborth canlynol:

- mae angen i CNC fod yn uchelgeisiol gyda chyfleoedd am arian cyfatebol er mwyn cael cymaint â phosibl o opsiynau cyflenwi prosiectau ledled Cymru
- mae angen llywodraethu clir archwiliadwy ar gyfer y Bwrdd Cyllido Strategol
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i barhau i ddarparu gwaith craffu a sicrwydd.

19. Cadarnhaodd Rhian i'r Bwrdd y bydd y Cynllun yn cydymffurfio â chod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Cymru.

***Cam Gweithredu: Rhian Jardine i ystyried ymrwymiad y Bwrdd i ddod o hyd i gyfleoedd posibl i gael arian cyfatebol priodol ac o ran llywodraethu mewn perthynas â'r Cynllun.Dosbarthu papur briffio i'r Bwrdd. Ysgrifenyddiaeth i nodi ar Ragolwg ar gyfer cyfarfod mis Medi.***

20. Cymeradwyodd y Bwrdd argymhellion y papur.

## 3. Dal a Rhyddhau – Cynnig i gynnal ymgynghoriad ar reoliadau pysgota eogiaid a sewin (CNC B B 26.17)

21. Ymunodd Peter Gough â'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i'r Bwrdd ar y cynnig ar gyfer ymgynghoriad.  Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo argymhellion y papur, gan nodi nad diben y cynnig oedd atal pysgota, ond i leihau'r marwolaethau mewn pysgota gwialen a rhwyd er mwyn gwarchod y stoc o eogiaid a sewin.

22. Trafododd y Bwrdd effeithiau posibl y cynnig ar arian a rhanddeiliaid, a gofynnodd am sicrwydd bod y dystiolaeth a gaiff ei hystyried yn y cynnig yn mynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd hirdymor sy'n ymwneud â'r stociau pysgod dan sylw.

23. Nodwyd fod Cymru yn mabwysiadu gwahanol ddull gweithredu i Loegr; mae hyn oherwydd y gwahanol lefelau o stociau pysgod, a oedd yn sbarduno'r mesurau arfaethedig yng Nghymru.

24. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion fel y'u cyflwynwyd yn y papur ac amlygodd yr angen i CNC sicrhau bod digon o adnoddau gorfodi ar waith, a bod y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei chynnal a'i datblygu.

## 4. Proses CNC ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer eu cyhoeddi (CNC B B 27.17)

25. Siaradodd Ruth Tipping am y papur ac eglurodd y rôl bwysig oedd gan CNC i'w chwarae o ran ystyried a chymeradwyo Cynlluniau Llesiant a ddatblygwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac o ran dylanwadu arnynt.

26. Cytunodd y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol fod hwn yn gyfle i sicrhau bod buddiannau'r amgylchedd ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cael eu cymryd o ddifrif ym mhob un o Gynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.  Nododd y Bwrdd y cynnig fel y'i cyflwynwyd yn y papur a phwysleisiodd y cyfle sydd gan y Bwrdd i ychwanegu gwerth wrth hyrwyddo Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru.

27. Cymeradwyodd y Bwrdd y syniad o greu is-grŵp a fyddai'n gyfrifol am graffu ar Gynlluniau Llesiant a'u cymeradwyo; cytunwyd mai'r aelodau fyddai Andy, Howard, Chris ac Elizabeth. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Bwrdd fel diweddariad Pwyllgor sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd Busnes.

***Cam Gweithredu: Ruth Tipping i drefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd â'r Ysgrifenyddiaeth a'u rhannu ag Aelodau'r Grŵp. Grŵp i ddatblygu cylch gorchwyl yn y cyfarfod cyntaf a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd CNC. Ysgrifenyddiaeth i nodi eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd ar ôl cyfarfod cyntaf y Grŵp.***

## 5. Prosiect Ynni Alwen (CNC B B 28.17) (Masnachol Sensitif)

28. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur i'r Bwrdd gan nodi bod yr eitem yn fasnachol sensitif. Mae gan y contract werth uchel a hwn yw'r contract cyntaf o'i fath i Cyfoeth Naturiol Cymru ei ystyried a'i ddyfarnu, felly roedd yn ceisio sicrhau trefniadau llywodraethu priodol gan y Bwrdd llawn.

29. Darparodd Tim Jones eglurhad o'r prosiect hyd yma. Argymhellwyd fod y Bwrdd yn dirprwyo'r awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu ar y broses o gyhoeddi'r contract, ac unrhyw gontractau eraill yn y dyfodol a ystyrir yn rhai gwerth uchel, dadleuol neu adlamol, gan nodi unrhyw risgiau i'r Tîm Gweithredol a rhoi diweddariad dilynol i'r Bwrdd.

30. Cytunodd y Bwrdd y dylid, ar ran y Bwrdd, rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gytuno ar y broses ar gyfer Prosiect Ynni Alwen a chraffu ar hwn a phob contract yn y dyfodol y mae CNC yn ei ystyried yn newydd, yn ddadleuol, yn adlamol neu o werth uchel.

## 6. Diweddariad ar Werthuso Swyddi

31. Darparodd Ashleigh Dunn a Steve Burton ddiweddariad llafar ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Undebau Llafur a Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau yn y dyfodol yn sgil pleidlais yr undeb. Amlygodd y Tîm Gweithredol eu pryderon ynghylch yr ansicrwydd parhaus sy'n ymwneud â Gwerthuso Swyddi a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar eu staff; gwnaethant hefyd fynegi awydd i ddatrys y broblem cyn gynted â phosibl er mwyn darparu sicrwydd a chadarnhad i'r staff.

## 7. Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch (CNC B B 29.17)

32. Nododd y Bwrdd y byddai papurau ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl yn y dyfodol, ac eithrio cwestiynau neu sylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

33. Argymhellodd Nigel Reader fod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl yn adolygu'r sefyllfa bresennol o ran y Syndrom Cryndod Llaw a Braich (HAVS).

***Cam Gweithredu: Ashleigh Dunn i ddarparu diweddariad ar HAVS i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl; Ysgrifenyddiaeth i nodi ar y Rhagolwg.***

34. Nododd y Bwrdd yr adroddiad a gyflwynwyd.

## 8. Adroddiad Cyllid (CNC B B 30.17)

35. Cyflwynodd Kevin Ingram y papur i'r Bwrdd, gan nodi y bydd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei hadrodd yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, wedi iddi gael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

36. Nododd y Bwrdd y sefyllfa dros dro ar ddiwedd y flwyddyn a adroddwyd.

## 9. Cofnodion a Materion sy'n codi, Pwyllgorau, Cofnodion a Materion sy'n codi

37. Adolygodd y Bwrdd gofnodion cyfarfod Datblygu mis Mawrth a chawsant eu cymeradwyo heb ddiwygiadau.

38. Cafodd y Log Camau Gweithredu ei adolygu a'i ddiweddaru fel a ganlyn:

a) Cam Gweithredu 1 – Cadarnhaodd Catherine Smith fod y gwaith o ddatblygu'r hysbysfyrddau "pwy ydym ni" ar droed, a bydd lluniau proffesiynol yn cael eu tynnu yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Andy Middleton i ddatblygu blog Aelodau'r Bwrdd erbyn mis Mai a Chris Blake i wneud yr un peth erbyn mis Gorffennaf.
b) Cam Gweithredu 2 – Dywedodd Catherine Smith fod y blog Bwrdd a ysgrifennwyd gan Zoë Henderson ar ôl cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai wedi cael 993 o ymweliadau unigryw a chyfanswm o 1,129 o drawiadau.
c) Cam Gweithredu 3 – Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai briff gan y Bwrdd ar Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cael ei ddosbarthu er ymwybyddiaeth i Aelodau'r Bwrdd ac er mwyn gwneud yn siŵr bod holl aelodau'r Bwrdd yn glir o ran y sector y byddent yn gweithio gydag ef yn rhinwedd eu rolau fel 'hyrwyddwyr'.

***Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu nodyn briffio drafft er ymwybyddiaeth i Aelodau'r Bwrdd ac er mwyn i Aelodau'r Bwrdd godi unrhyw gwestiynau ynghylch eu sectorau.***

d) Cam Gweithredu 4 – Nododd y Bwrdd wahoddiad gan Roger Cooper i ymuno â Phanel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd (WSAP). Cadarnhaodd Ceri fod

staff CNC eisoes wedi'u penodi'n ffurfiol i'r WSAP, ac ni fyddai llawer o ddiben ychwanegu Aelod o'r Bwrdd i'r panel.

***Cam Gweithredu: Rhodri Scrivens, Cynorthwyydd Personol y Cadeirydd, i gysylltu â Roger Cooper i'w hysbysu.***

e) Cam Gweithredu 5 – Wedi'i gyflawni

f) Cam Gweithredu 6 – Wedi'i gyflawni

g) Cam Gweithredu 7 – Wedi'i gyflawni

h) Cam Gweithredu 8 – Cynllun Menter wedi'i nodi i'w gyflwyno ym Musnes mis Gorffennaf.

## Unrhyw Faterion Eraill

39. Papurau Rhyngsesiynol – nododd y Bwrdd y papurau a ddosbarthwyd er gwybodaeth; ailadroddodd y Cadeirydd y dylai unrhyw sylwadau neu gwestiynau gael eu codi yn ddwyochrol neu yn y cyfarfod drwy eithriad.

40. Rhagolwg – Nododd y Bwrdd y rhagolwg o eitemau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd i ddod a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth wahaniaethu rhwng eitemau pwysig ac eitemau sefydlog.

41. Gwnaeth y Cadeirydd ddiweddaru'r Bwrdd ar drafodaeth rhwng Catherine Smith, yn rhinwedd ei swydd fel Uwch-swyddog Cyfrifol am Wybodaeth ynghylch Diogelwch Gwybodaeth, gan atgoffa aelodau'r Bwrdd i ddefnyddio'u TGCh CNC.  Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod sesiynau hyfforddi unigol ar gael i holl Aelodau'r Bwrdd er mwyn datblygu sgiliau a sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn cydymffurfio â pholisïau Diogelwch Gwybodaeth CNC.

42. Diolchodd y Cadeirydd i bawb, a daeth â'r cyfarfod i ben yn swyddogol.